# Perdoneg

Stori: Eurgain Haf

Roedd Cerys Mai wedi bod wrthi fel lladd nadroedd yn helpu ei thad i wagio tŷ Anti Jini. Hen fodryb i Cerys oedd Anti Jini ac roedd yn byw mewn bwthyn bach ar gyrion y pentref.

Ers pan oedd yn ddim o beth, roedd Cerys wrth ei bodd yn cael mynd i dŷ Anti Jini i chwarae yn yr ardd enfawr ac yna cael te bach prynhawn a blasu ei chacennau bendigedig. Yna, yn ddi-ffael, byddai Anti Jini yn agor yr hen biano ac yn morio canu pob math o hwiangerddi a phenillion. A diolch i Anti Jini am ei dysgu, roedd gan Cerys Mai llond cwpwrdd cornel o gwpanau a medalau yr oedd wedi eu hennill mewn eisteddfodau bach mewn cystadlaethau canu ac unawd piano.

Ond ychydig fisoedd yn ôl, fe syrthiodd Anti Jini yn y tŷ a bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty ac yna symud i fyw i gartref gofal. Teimlai Cerys yn drist iawn, ac er mwyn codi ei chalon fe drefnodd ei Mam iddi gael sgwrs dros Facetime â'i hen fodryb. Roedd yn teimlo'n well wedi hynny o wybod bod Anti Jini yn hapus ei byd yn ei chartref newydd ac yn diddanu pawb gyda'i chanu!

Roedd yn ddiwedd cyfnod ac roedd gwagio'r tŷ heddiw yn atgoffa Cerys o hynny. Roedd ei thu mewn yn gymysg o deimladau chwerw melys.

"Be fydd yn digwydd i biano Anti Jini?" gofynnodd Cerys Mai i'w thad, wrth iddo helpu'r dynion i lwytho'r offeryn o bren derw melyn ar gefn y lori.

"Mi fydd yn mynd i'r warws yn y dref," atebodd ei thad, a thybiodd Cerys iddi glywed tinc o dristwch yn ei lais.

Sied fawr oedd y warws, yng nghefn y siop oedd yn gwerthu pianos yn y dref. Sylwodd Cerys Mai ar y rhesi o bianos newydd sbon danlli oedd ar werth yn y siop. Rhai o bob lliw a llun - rhai brown, melyn, du, gwyn a hyd yn oed un pinc! Pob un o bren mahogani neu dderw, yn sgleinio a'u hallweddellau fel rhesi o ddannedd ifori.

Golygfa wahanol iawn oedd hi yn y warws. Roedd degau o bianos yno a phob un ohonynt yn amlwg wedi gweld dyddiau gwell. Roedd rhai yn grafiadau i gyd, rhai eraill heb gefn iddynt gan ddangos y tannau fel rhes o asennau. Roedd nodau ar goll ar allweddellau rhai ohonynt, gan wneud iddynt edrych fel cegau diddannedd hen wrachod. Roedd yn olygfa drist iawn a meddyliodd Cerys tybed pwy oedd eu perchnogion, pwy fu'n canu wrth eu hymyl a pha hanes oedd iddyn nhw?

*(Stori yn parhau ar y dudalen nesaf)*



## Gwranda ar y stori, hefyd!

Cofia fod modd darllen a gwrando ar y stori yma ar yr un pryd, drwy lawrlwytho Podlediad newydd sbon Cylchgrawn Cip!
Neu mae fideo o Francesca Sciarrillo yn darllen y stori ar gael ar dudalen *YouTube* yr Urdd.

Clicia fan hyn i wrando ar y Podlediad




Clicia fan hyn i wylio'r fideo

youtu.be/YK3PKSVNPq0

# Perdoneg

Stori: Eurgain Haf

"Mae'r lle yma fel mynwent pianos," mwmialodd Cerys Mai dan ei gwynt. Ond roedd yn amlwg fod ei thad wedi ei chlywed. Gwasgodd ei hysgwydd yn garedig. Gosododd y dynion y piano ar ganol y llawr a rhoi'r stôl wrth ei ymyl.

Tra bod ei thad yn siarad gyda pherchennog y warws, eisteddodd Cerys wrth y piano, am y tro olaf a dechrau chwarae'r nodau yn araf. Dechreuodd grio'n dawel gan feddwl beth fyddai Anti Jini yn ei feddwl petai'n gallu gweld hyn. Yna clywodd lais swynol yn canu'r geiriau:

"Sych dy ddagrau, cwyd dy galon,
dal i ganu mae'r alawon,
Yn nodau'r nant a chwa'r awel,
tra byddwn ni, ni fyddent dawel."

Cododd Cerys Mai ei phen a syllu'n gegrwth ar yr olygfa o'i blaen. Yno, ar dop y piano eisteddai tylwythen deg yn syllu arni, ei choesau wedi ei chroesi a'i hadenydd yn curo. Edrychodd Cerys o'i chwmpas i weld a oedd unrhyw un arall wedi sylwi arni, ond roedd ei thad yn brysur yn sgwrsio.

"Perdoneg ydw i, ac rydw i yma i ddweud wrthot ti nad oes yn rhaid i ti ddigalonni. Rydw i yn un o'r tylwyth teg sy'n cadw'r gerddoriaeth yn fyw."

Rhwbiodd Cerys Mai ei llygaid eto. Ai breuddwydio oedd hi? Gwenodd y dylwythen deg a pharhau i esbonio.

"Bob nos mi fydda i a fy ffrindiau yn casglu sain y nodau o'r hen bianos yma. Yna mi fyddwn ni yn eu gwasgaru ar hyd y wlad i bawb eu clywed a'u mwynhau, yn awelon yr awel, tonau'r tonnau a melodïau'r meysydd."

"A phiano Anti Jini...?" mentrodd Cerys â gofyn.

"Paid â phoeni. Mi fydd ei nodau yn dal i ganu, dim ond i ti glustfeinio. Ac mi fydd y pren yn rhan ohonot."

Edrychodd Cerys yn ddryslyd ac roedd ar fin holi Perdoneg i esbonio mwy pan alwodd ei thad arni o ben arall y warws.

"Cerys, mae'n amser i ni fynd!"

"Iawn, dod rŵan," atebodd Cerys, ac edrych i fyny i ben y piano i ffarwelio gyda Perdoneg. Ond roedd y dylwythen deg eisoes wedi diflannu.

Doedd Cerys dal ddim yn siŵr os mai wedi dychmygu'r cyfan oedd hi. Caeodd gaead y piano bach yn ofalus a thynnu ei bys ar hyd y pren yn hiraethus. Cerddodd at ei thad heb edrych yn ei hôl.

***

Ychydig wythnosau yn ddiweddarach fe gyrhaeddodd bocs tal a thrwm y tŷ, gydag enw Cerys Mai ar y label. Roedd yn rhaid iddi ofyn am help Dad i'w gario, ac am ryw reswm fe aeth yntau a'r parsel yn syth i'r ardd.

"Agora fo," meddai ei thad yn awchus gan roi winc slei ar ei mam.

Rhwygodd Cerys y papur a dechrau agor y bocs. Y tu mewn roedd cadair gyda chefn hir wedi ei gwneud o bren derw melyn. Syllodd Cerys arni mewn penbleth.

"Mae perchennog y warws yn saer ac yn gwneud dodrefn allan o hen bren," eglurodd ei thad. "Roedd Anti Jini eisiau iddo greu cadair yn arbennig i ti, allan o bren yr hen biano," gwenodd ei thad.

Roedd Cerys Mai wedi dotio'n lân gyda'i hanrheg, a gosododd y gadair o dan y goeden helyg yng ngwaelod yr ardd. Eisteddodd arni gan deimlo fel brenhines ar ei gorsedd.

Am y tro cyntaf dechreuodd wrando ar y synau o'i chwmpas. Clywodd y Titw Mawr yn trydar yn y canghennau uwch ei phen, murmur y nant fach ar waelod yr ardd, hymian y gwenyn wrth iddynt gasglu'r paill o'r coed rhododendron wrth ei hymyl, a whish-wish-wish yr awel yn ysgubo drwy'r dail.

Gwyddai Cerys mai Perdoneg a'i ffrindiau oedd yno yn gwasgaru nodau pêr piano Anti Jini o'i chwmpas, a chanodd ei chalon gyda balchder.

*Diwedd*

## Gwranda ar y stori, hefyd!

Cofia fod modd darllen a gwrando ar y stori yma ar yr un pryd, drwy lawrlwytho Podlediad newydd sbon Cylchgrawn Cip!

Neu mae fideo o Francesca Sciarrillo yn darllen y stori ar gael ar dudalen *YouTube* yr Urdd.

Clicia fan hyn i wrando ar y Podlediad




Clicia fan hyn i wylio'r fideo

youtu.be/YK3PKSVNPq0